# Cyfarfod Is-Grŵp Marchnata Cyrchfan Conwy

# Dydd Iau 13 Ionawr 2022

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Beverley Cooke (BC) | Alpine Travel |
| Maria McLean (MM) | Rydal Penrhos |
| Andrew Sutcliffe (AS) | Canolfan Ddringo Boathouse |
| Ceri Thomas (CT) | Cadw (Llywodraeth Cymru) |
| Charlotte Williams (CW) | Dunoon Hotels Ltd |
| Caroline Somary (CS) | Sweet Snowdonia |
| Sally Paveley (SP) | The Motorsport Lounge |
| Dana Williams (DW) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Jon Merrick (JM) | Rheolwr Busnes a Thwristiaeth, CBSC |
| Gwen Roberts (GR) | Uwch Swyddog Marchnata Twristiaeth, CBSC |
| Millie Gilbert (MG) | Prif Swyddog Marchnata, Brandio, Cwsmeriaid a Digwyddiadau, CBSC |
| Kim Nicholls (KN) | Cofnodwr |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Louise Carswell | Adran Teithio a Thwristiaeth, Coleg Llandrillo |
| John Metcalf | Number 18 Conwy |
| Melissa Esplen-Metcalf | Number 18 Conwy |
| Hollie Harmsworth | Follow Films |

**1. Cyflwyniad a Chroeso**

Croesawodd JM bawb i gyfarfod cyntaf yr Is-Grŵp Marchnata.

**2. Trosolwg o Gyrchfan Conwy**

Dechreuodd Cyrchfan Conwy tua 2010. Roedd yn fenter ar draws Gogledd Cymru i sefydlu fforymau ar gyfer busnesau twristiaeth. Conwy oedd un o'r siroedd cyntaf i ddechrau cyfarfod.

Mae pedwar gyrrwr allweddol yn y Cylch Gorchwyl cyfredol:

1. Darparu cyfraniad lleol i weithrediad llwyddiannus Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy.
2. Cefnogi, monitro ac adolygu Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy
3. Rhoi arweiniad a dylanwadu ar gynllunio twristiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol
4. Darparu'r porth ar gyfer cyfathrebu agored rhwng y fasnach a chyrff cyhoeddus

Mae'r grŵp Cyrchfan Conwy wedi datblygu'n dda dros y blynyddoedd ac wedi cael dylanwad ar Gonwy.

Trwy greu grŵp Cyrchfan Conwy, mae CBSC wedi ceisio rhoi penderfyniadau yn nwylo busnesau twristiaeth. Er enghraifft, cafodd y Cynllun Rheoli Cyrchfan ei ysgrifennu gan Gyrchfan Conwy a'i gefnogi gan CBSC.

Mae Cyrchfan Conwy wedi cael ei ailstrwythuro ar gyfer 2022.

Nigel Treacy yw Cadeirydd y prif Grŵp Cyrchfan Conwy. Mae Is-Gadeirydd eto i gael ei ethol, ond bydd yn cael ei ddewis o Gadeiryddion y pum is-grŵp.

Mae'r pum grŵp fel a ganlyn:

1. Sgiliau
2. Rheoli Cyrchfan
3. Marchnata
4. Strategaeth/Cynllun Gweithredu
5. Gwybodaeth Twristiaeth / Cynllun Llysgennad Conwy

Mae oddeutu 16 aelod ymhob grŵp.

Hefyd mae Bwrdd Cyrchfan Conwy sy'n cynnwys: Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cadeiryddion y pum is-grŵp, cynrychiolydd Croeso Cymru (Andrew Forfar), Aelod Cabinet Datblygu Economaidd a Hamdden CBSC (y Cyng. Louise Emery) a Rheolwr Twristiaeth CBSC (Jon Merrick)

Bydd Cadeirydd Cyrchfan Conwy hefyd yn eistedd ar Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru a gynhelir gan Croeso Cymru.

**3. Ethol Cadeirydd ar gyfer yr Is-Grŵp Marchnata**

Cafodd Maria McLean ei hethol fel Cadeirydd yr Is-Grŵp Marchnata

**4. Cylch Gorchwyl**

CAM GWEITHREDU – Bydd JM yn rhannu prif Gylch Gorchwyl Cyrchfan Conwy gyda'r grŵp hwn

Bydd rhaid i'r Is-Grŵp Rhaglen Marchnata ddatblygu eu Cylch Gorchwyl eu hunain.

CAM GWEITHREDU – JM a MM i ddatblygu Cylch Gorchwyl yn seiliedig ar feysydd allweddol a rhannu drafft i'r grŵp
CAM GWEITHREDU – JM i rannu Cylch Gorchwyl o is-grwpiau eraill pan fydd ar gael

**5. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol – meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt**

**Sylwadau JM oedd:**

- Hyrwyddo'r cyrchfan - hoffai weld y fasnach yn cefnogi a dylanwadu ar CBSC i farchnata'r cyrchfan
- Creu calendr digwyddiadau ar y cyd – preifat a CBSC
- Arosiadau dros nos – sy'n elwa'r gymuned leol
- Twristiaeth gynaliadwy – Mae Llywodraeth Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri eisoes yn edrych ar hyn. Rhaid iddo weithio ar gyfer y gymuned leol yn ogystal ag ymwelwyr

- Cysylltiadau ag is-grwpiau eraill – Er enghraifft, mae is-grŵp Llysgennad/Canolfannau Croeso yn edrych ar siop ar-lein Canolfannau Croeso a Rhaglen Llysgennad a Chanolfannau Croeso. Bydd cyffredinedd â'r grŵp hwn

**Sylwadau gan y grŵp**

- cytuno gyda'r uchod
- Cafodd Cynllun Rheoli Cyrchfan 2019 – 2029 ei ysgrifennu cyn Covid. Awyddus iddo gael ei ddiweddaru. Rhaid adlewyrchu'r sefyllfa rŵan
- mae calendr digwyddiadau ar y cyd yn syniad da. Mae ein busnes yn hyrwyddo tymor y gaeaf ac fel arfer yn brysur dros y cyfnod hwnnw
- cytuno fod y calendr digwyddiadau ar y cyd yn hir ddisgwyliedig. Ar hyn o bryd mae'n anodd cael dyddiadau er mwyn cael pobl i gefnogi. Rhaid gwneud i fyny am yr amser a gollwyd yn sgil Covid.
  Mae wedi bod yn anodd cael dyddiadau wedi'u rhannu o Venue Cymru. Gall rhai digwyddiadau mawr fod yn hanfodol i'r economi ehangach a byddai gwybodaeth flaenorol yn fuddiol
  Rhaid marchnata digwyddiadau yn y gymuned leol ac i berchnogion ail gartrefi
- Rhaid datblygu ap digidol a dod o hyd i'r farchnad gywir
- Parc Cenedlaethol Eryri - twristiaeth gynaliadwy – mae hyn yn ganolog i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae PCE wedi bod yn gweithio gyda Gwynedd ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy. Yn hapus i rannu'r hyn sydd ynghlwm â'r gwaith gyda'r grŵp hwn. Mae PCE yn cynllunio strategaeth dwristiaeth – 'ymweld yn gyfrifol'. Mae hyn yn debyg i'r ymgyrch 'cynllunio, darganfod, diogelu' y llynedd. Hefyd yn edrych ar gludiant a gwersylla'n gyfrifol. Hapus i rannu unrhyw beth sy'n berthnasol gyda'r grŵp hwn a dod a chydweithwyr i'r cyfarfod i gyflwyno a thrafod.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

- **Hyblygrwydd** – dylai'r grŵp hwn fod yn hyblyg er mwyn gwahodd gwesteion i'r cyfarfodydd os yw'n berthnasol i'r rhaglen
- **Cyfeiriadau e-bost** – roedd yr aelodau yn hapus i rannu eu cyfeiriadau e-bost
- **Iaith –** cytunwyd y byddai'r cofnodion yn dderbyniol yn Saesneg yn unig, oni bai cânt eu rhannu'n gyhoeddus
- **Cyfrinachedd** – bydd y cyfarfodydd yn gyfrinachol er mwyn galluogi aelodau i ddweud eu barn yn ddiogel
- **Hyrwyddo gwaith Cyrchfan Conwy** i gynulleidfa ehangach trwy gronfa ddata busnes CBSC, gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol**.**
- **Amlder cyfarfodydd** – bob mis am y chwarter cyntaf, ac adolygu wedi hynny
- **Cynrychiolwyr CBSC** – ar gael bob amser i gydlynu, hwyluso a chymryd cofnodion mewn cyfarfodydd.

- **Aelodau methu mynychu** – gallent gyfrannu trwy e-bost neu gyfarfod gyda'r Cadeirydd yn unigol.
- **Coeden Deulu Twristiaeth -** CAM GWEITHREDU **-** JM i ddarparu coeden deulu twristiaeth o Lywodraeth Cymru i lawr

KN
13.01.22.